Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asesiadau Effaith ar Iechyd

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am gyfraith newydd sydd yn dod i Gymru

**Anfonwch y ffurflen yma yn ôl i ni erbyn 29 Mawrth 2024 os gwelwch yn dda**



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o Reoliadau '**Asesu Effaith ar Iechyd (Cymru). Ystyried rheoliadau drafft i orfodi'r defnydd o Asesiadau Effaith ar Iechyd**'.

**Rhagfyr 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma yn hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 37**.

Mae hwn yn **arolwg**. Darllenwch y llyfryn yma ac atebwch y **cwestiynau**. Rydych chi'n gallu ei lenwi **ar-lein** neu **ei argraffu** a'i e-bostio at:

**Ebost:** AsesiadEffaithIechyd@llyw.cymru

**Neu rydych chi'n gallu ei bostio at:**

Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Anfonwch i ni erbyn: 29 Mawrth 2024**

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys


**Beth ydy'r arolwg yma ..... 4**

**Mwy am iechyd yng Nghymru ..... 6**

**Mwy am y gyfraith ..... 9**

Pryd fyddai'r rheoliadau newydd yn berthnasol? ..... 15

Sut y dylid gwneud asesiadau effaith ar iechyd ..... 19

Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru ..... 23

Cyhoeddi asesiadau effaith ar iechyd ..... 26

Defnyddio asesiadau effaith iechyd ..... 28

**Mwy amdanoch chi ..... 32**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth ..... 34**

**Geiriau anodd ..... 37**

# Beth ydy'r arolwg yma



Mae gan bobl ar draws Cymru lefelau iechyd gwahanol.



Mae pobl yn aml yn cael problemau iechyd oherwydd ble maen nhw'n byw a faint o arian sydd ganddyn nhw. Er enghraifft, os ydyn nhw yn dod o ardal dlotach o Gymru.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg o ran iechyd a'u bod yn cael cyfleoedd da i fod yn iach.




Rydyn ni yn dod â chyfraith newydd i Gymru o'r enw **Rheoliadau Asesu Effaith ar Iechyd (Cymru)**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl am ofyn i **gyrff cyhoeddus** cynnal a**sesiadau effaith ar iechyd** yng Nghymru.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd, cynghorau lleol, gwasanaethau tân.




Mae **asesiad effaith ar iechyd** yn meddwl am sut y mae rhywbeth yn gallu effeithio ar iechyd pobl.

# Mwy am iechyd yng Nghymru



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael eu trin yn deg o ran eu iechyd.



Mae'n meddwl rhoi gofal iechyd da i bobl a'r gefnogaeth maen nhw ei angen i fyw bywyd iach.



Mae nifer o bethau sydd yn gallu effeithio ar ein iechyd. Er enghraifft:

- Pa mor iach ydy ein bwyd
- Faint o addysg sydd gennym ni
- Faint o arian sydd gennym ni



Mae pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf tlawd Cymru llawer mwy tebygol o gael problemau iechyd na'r rhai sydd ddim.



Hefyd, mae pobl o'r ardaloedd yma yn fwy tebygol o farw yn fwy ifanc.



Dydy hyn ddim yn deg. Mae'n bosibl osgoi cymaint o'r problemau iechyd yma



Rydyn ni hefyd yn gwybod bod trin y problemau iechyd yma yn costio llawer o arian i'r GIG.



Ar hyn o bryd dim ond mewn rhai sefyllfaoedd y mae **asesiadau effaith ar iechyd** yn cael eu gwneud.




Mae'r gyfraith o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn dweud bod yn rhaid i **gyrff cyhoeddus** gynnal **datblygu cynaliadwy**.



Mae **datblygu cynaliadwy** yn meddwl am ba mor hir y bydd rhywbeth yn para. Gwneud yn siŵr bod ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yn helpu pobl nawr ac yn y dyfodol.



Mae hefyd yn meddwl am **lesiant** i bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.




Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddweud wrth bobl beth yw eu **nodau llesiant**.



Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

Mae'r **nodau llesiant** yn dod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r nodau llesiant yn rhestr o bethau a fydd yn helpu i wneud Cymru'n lle gwell i fyw yn y dyfodol.

# Mwy am y gyfraith




Fe fydd y **rheoliadau drafft** newydd yn rhan o ddeddf ddaeth allan yn 2017 o'r enw **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**.




Rheolau ydy **rheoliadau** i wneud yn siŵr bod pethau'n digwydd yn y ffordd orau bosibl.




Mae rhan o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** yn ymwneud ag **asesiadau effaith ar iechyd**.



Mae **asesiadau effaith iechyd** yn ffordd o feddwl am yr effeithiau y bydd rhywbeth yn eu cael ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.



Dim nawr yn unig, ond yn y dyfodol hefyd.



Mae’r **rheoliadau drafft** yn sôn am beth mae angen i **gorff cyhoeddus** ei wneud a sut i fynd ati i wneud **asesiad effaith ar iechyd**.



Maen nhw’n dweud beth mae angen i **gyrff cyhoeddus** feddwl amdano a sut i stopio unrhyw effeithiau gwael, a cynyddu effeithiau da ar iechyd.

Fe fydd angen i **gyrff cyhoeddus** ddeall pobl a meddwl am bethau fel:



- Lle mae rhywun yn byw.



- Faint o arian sydd ganddyn nhw.




- Os oes gan bobl **nodweddion gwarchodedig**.

> Mae **nodweddion gwarchodedig** yn feysydd o fywyd lle mae pobl yn aml yn cael eu trin yn annheg. Er enghraifft, oherwydd anabledd, oedran, rhyw, hil.



Oherwydd mae'r mathau yma o bethau i gyd yn effeithio ar y cyfleoedd iechyd sydd gan rywun.




Rhaid i **gorff cyhoeddus** hefyd gyhoeddi canlyniadau ei **asesiad effaith ar iechyd**.

## Cwestiwn 1




**Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig i gyrff cyhoeddus orfod meddwl am y materion mwy sy'n gallu effeithio ar iechyd?**

**Er enghraifft, byw mewn cymuned dlawd. Ysgrifennwch eich ateb yma:**




Mae **Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn rhestru'r holl sefydliadau sy'n cael eu galw'n **gorff cyhoeddus**.




Dyma'r un rhestr o **gyrff cyhoeddus** sydd yn dod o dan ddeddf arall o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.



Rydyn ni hefyd yn meddwl cynnwys cyrff fel **Trafnidiaeth Cymru**, **Gofal Cymdeithasol Cymru** ac eraill ar y rhestr yma.

## Cwestiwn 2




**A ddylid gofyn i'r rhestr hirach o gyrff cyhoeddus wneud asesiadau effaith ar iechyd hefyd? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

# Pryd fyddai'r rheoliadau newydd yn berthnasol?



Fe fydd yn rhaid i **gyrff cyhoeddus** wneud **asesiadau effaith ar iechyd** pan fyddan nhw yn gwneud penderfyniadau mawr.



Er enghraifft:

- gyda'u nodau a'u cynlluniau tymor hir
- newidiadau i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus
- cynlluniau mawr am arian.



Bydd dim angen iddyn nhw wneud **asesiad effaith ar iechyd** ar gyfer cynlluniau o ddydd i ddydd na phenderfyniadau llai.

## Cwestiwn 3




**Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff cyhoeddus wneud asesiadau effaith ar iechyd wrth wneud penderfyniadau mawr? Fel y rhai uchod? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

## Cwestiwn 4



**Oes yna unrhyw sefyllfaoedd eraill lle rydych chi’n meddwl y dylen nhw eu gwneud? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

## Cwestiwn 5



**Ydych chi'n meddwl bod yna sefyllfaoedd eraill lle na ddylen nhw orfod eu gwneud? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

# Sut y dylid gwneud asesiadau effaith ar iechyd




Rydyn ni'n credu ei bod yn syniad da gadael i **gyrff cyhoeddus** benderfynu sut i'w gwneud. Er enghraifft, fel rhan o **asesiadau** eraill.

Ond, rydyn ni yn credu y dylai fod rhai rheolau i'w dilyn. Dyma rai ohonyn nhw:



- Cael gwybod beth mae'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau yn ei feddwl.



- Cael gwybod beth mae unrhyw un sydd yn gallu cael eu heffeithio yn feddwl.




- Cadw cofnod o'r **asesiad effaith ar iechyd**.




- Cynnwys yr holl wybodaeth bwysig.



- Siarad am yr effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol.



Fe fydd angen i'r **corff cyhoeddus** feddwl am sut maen nhw'n gwneud yn siŵr bod iechyd yn cael ei wella. A bod problemau iechyd yn lleihau.



Mae hyn yn cynnwys meddwl am y materion mwy sy'n gallu effeithio ar iechyd. Fel lle mae rhywun yn byw ac os oes ganddo **nodweddion gwarchodedig**.

## Cwestiwn 6




**Ydych chi yn cytuno â ni yn dweud bod angen i gyrff cyhoeddus ddilyn y rheolau sylfaenol yma wrth wneud asesiad effaith ar iechyd? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

## Cwestiwn 7



**Ydych chi yn credu bod unrhyw effeithiau negyddol yn gallu dod o gyflwyno'r rheoliadau yma? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

# Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** adran o’r enw **Uned Cymorth Asesu Effaith Iechyd Cymru**. Maen nhw yn cefnogi gwneud **asesiadau effaith iechyd**.




Mae’r adran yma wedi bod yn rhedeg ers 20 mlynedd ac mae’n cael ei hystyried yn dda ar draws y byd.



Does dim rhaid i **gyrff cyhoeddus** ddilyn beth maen nhw’n ei ddweud, ond mae’n gallu eu helpu i wneud yr **asesiadau** yn y ffyrdd gorau.

## Cwestiwn 9




**Faint ydych chi'n meddwl mae canllawiau yn gallu cefnogi cyrff cyhoeddus? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

## Cwestiwn 10




**Os ydych chi'n credu bod angen cyfarwyddiadau, beth ddylai fod ynddyn nhw? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

# Cyhoeddi asesiadau effaith ar iechyd





Fe fydd angen i **gyrff cyhoeddus** gyhoeddi eu **hasesiadau effaith ar iechyd**. Er enghraifft, ar eu gwefan.




Efallai y byddan nhw yn eu cyhoeddi fel rhan o **asesiadau effaith eraill** neu ar eu pennau eu hunain.

## Cwestiwn 11



**Ydych chi'n credu y bydd rhoiopsiynau i gyrff cyhoeddus ar sut maen nhw'n gallu eu cyhoeddi yn ddefnyddiol iddyn nhw? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

## Cwestiwn 12



**Oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer sut, pryd a lle y dylid eu cyhoeddi? Ysgrifennwch eich syniadau yma..**

# Defnyddio asesiadau effaith iechyd



Fe fydd defnyddio **asesiadau effaith ar iechyd** yn helpu **cyrff cyhoeddus** i feddwl am yr effeithiau y mae eu gwaith yn ei gael ar bobl Cymru.



Maen nhw'n gallu cael eu defnyddio mewn ffordd barhaus. Mae modd edrych arnyn nhw a'u hadolygu.



Maen nhw yn gweithio orau pan fyddan nhw yn cynnwys pobl a sefydliadau eraill. Mae hyn oherwydd bod safbwyntiau gwahanol yn bwysig.

## Cwestiwn 13



**Oes unrhyw gymorth neu wybodaeth arall y bydd cyrff cyhoeddus eu hangen i'w helpu i wneud asesiadau effaith ar iechyd? Ysgrifennwch eich ateb yma.**




## Cwestiwn 14

**Ydych chi'n meddwl y byddai ein cynlluniau yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

**Sut gallwn ni wneud yn siŵr y byddai'r iaith Gymraeg yn cael yr un tegwch â'r iaith Saesneg? Ysgrifennwch eich syniadau yma.**



## Cwestiwn 15

**Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynlluniau hyn roi cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn well? Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.**

## Cwestiwn 16



**Oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ychwanegu sydd ddim wedi cael ei gynnwys yn barod? Ysgrifennwch eich ateb yma.**

# Mwy amdanoch chi




**Eich enw:**



**Sefydliad (os ydy hynny'n berthnasol):**



**Ebost:**



**Rhif ffôn:**



**Eich cyfeiriad:**



Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, neu ar ran sefydliad? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

Unigol ☐

Ar ran sefydliad ☐

Arall, dywedwch beth os gwelwch yn dda:

☐




**Fe fyddwn ni yn cyhoeddi adroddiad am atebion pobl. Os ydych chi eisiau i'ch atebion aros yn breifat, ticiwch y blwch yma.** ☐

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio’ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o’r enw y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data DU (UK GDPR)**.



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion. Weithiau fe fyddwn ni yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddan nhw’n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy’n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i’ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae’r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd y mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei gyhoeddi yn cael ei gadw.




Mae’r gyfraith diogelu data yn rhoi’r hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a sut rydych chi’n gallu ei weld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio’r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu’r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi yn rhywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:



Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ



**Ebost:** [Swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:

Tŷ Wycliffe
Water Lane
Wilmslow
Swydd gaer
SK9 5AF



**Ffôn:** 01625 545745 or 0303 123 1113




**Gwefan:** [ico.org.uk](https://ico.org.uk)

# Geiriau anodd

## Asesiad Effaith ar Iechyd

Mae asesiad effaith ar iechyd yn meddwl am sut y mae rhywbeth yn gallu effeithio ar iechyd pobl.

## Cyrff cyhoeddus

Mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd, cynghorau lleol, gwasanaethau tân.

## Datblygu cynaliadwy

Mae hyn yn meddwl am faint y bydd rhywbeth yn para. Gwneud yn siŵr bod ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yn helpu pobl nawr ac yn y dyfodol.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae'r rhain yn feysydd o fywyd lle mae pobl yn aml yn cael eu trin yn annheg. Er enghraifft, oherwydd anabledd, oedran, rhyw, hil.

## Nodau llesiant

Mae'r nodau llesiant yn dod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r nodau llesiant yn rhestr o bethau fydd yn helpu i wneud Cymru'n lle gwell i fyw yn y dyfodol.